Prifysgol **Wrecsam**
**Wrexham** University

# Manyleb y modiwl

**Ni ellir rheoli'r ddogfen hon ar ôl iddi gael ei hargraffu. Defnyddiwch Gyfeiriadur y Modiwl i gael y fersiwn ddiweddaraf drwy glicio ar y ddolen ganlynol:** Cyfeiriadur y modiwl

| | |
|---|---|
| **Cod y Modiwl** | PSY427 |
| **Teitl y Modiwl** | Dulliau Ymchwil 2 |
| **Lefel** | 4 |
| **Gwerth credyddol** | 20 |
| **Cyfadran** | Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd |
| **Cod HECoS** | 100497 |
| **Cod Cost** | GAPS |
| **Modiwl rhagofyniadol** | Dulliau Ymchwil 1 (BSc (Anrh) Seicoleg a BSc (Anrh) Seicoleg gyda Blwyddyn Sylfaen yn unig). |

## Y rhaglenni y cynigir y modiwl ynddynt

| Teitl y Rhaglen | Craidd/Opsiynol/Sefyll ar ei hyn |
|---|---|
| BSc (Anrh) Seicoleg | Craidd |
| BSc (Anrh) Seicoleg gyda Blwyddyn Sylfaen | Craidd |
| BSc (Anrh) Seicoleg Droseddol | Craidd |

## Crynodeb o Oriau'r Modiwl

| | |
|---|---|
| Oriau dysgu ac addysgu | 36 awr |
| Cymorth tiwtor ar leoliad | 0 awr |
| Dysgu dan oruchwyliaeth e.e. dosbarthiadau ymarferol, gweithdai | 0 awr |
| Goruchwyliaeth prosiect (prosiectiau lefel 6 a modiwlau traethawd hir yn unig) | 0 awr |
| **Active learning and teaching hours total** | **36 awr** |
| Oriau lleoliad gwaith | 0 awr |
| Astudio annibynnol dan arweiniad | 164 awr |
| **Hyd y modiwl (cyfanswm oriau)** | **200 awr** |

## Nodau'r modiwl

Nod y modiwl hwn yw cyflwyno myfyrwyr i wahanol ddulliau o ddadansoddi data o fewn ymchwil seicolegol. Bydd myfyrwyr yn ennill gwerthfawrogiad o'r gwahanol agweddau at ddadansoddi data gan ystyried methodolegau ansoddol a meintiol fel ei gilydd. Bydd y

modiwl yn galluogi myfyrwyr i sicrhau lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth o’r broses dadansoddi data, gan gynnwys gwerthfawrogiad o gryfderau a chyfyngiadau’r dulliau hyn. Bydd myfyrwyr yn ennill sgiliau ymchwil ymarferol a fydd yn eu galluogi i fod yn ymchwilwyr effeithiol. Bydd myfyrwyr yn adeiladu ar yr wybodaeth a enillwyd yn y modiwl Dulliau Ymchwil 1 ac yn cael cyfle i wneud darn ymchwil.

## Deiliannau Dysgu’r Modiwl

Ar ddiwedd y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn gallu:

| | |
|---|---|
| **1** | Arddangos dealltwriaeth o ddulliau dadansoddi data ansoddol a meintiol |
| **2** | Trafod cryfderau a chyfyngiadau gwahanol ddulliau dadansoddi |
| **3** | Cymhwyso sgiliau ymchwil ymarferol. |
| **4** | Cynhyrchu adroddiad ymchwil academaidd prosiect ymchwil ansoddol sy’n trafod gwybodaeth a dealltwriaeth o gorff o dystiolaeth |

## Asesiad

Tasgau Asesu Dangosol::

Mae'r adran hon yn amlinellu'r math o dasg asesu y disgwylir i'r myfyriwr ei chwblhau fel rhan o'r modiwl hwn. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn y llawlyfr modiwl ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol.

Aseiniad 1:

Aseiniad ysgrifenedig – adroddiad ymchwil 2000 gair, bydd angen i fyfyrwyr gynnal prosiect ymchwil ansoddol.

Aseiniad 2:

Portffolio – Bydd angen i fyfyrwyr weithio drwy bortffolio o dasgau a fydd yn arddangos eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o ddulliau dadansoddi data ansoddol a meintiol a sgiliau ymchwil ymarferol.

Gall tasgau dangosol gynnwys: dadansoddi a disgrifio data meintiol; creu amserlen gyfweld, cynnal cyfweliadau a thrawsgrifio; dadansoddi data ansoddolh.y. dadansoddiad thematig a/neu ddadansoddi cynnwys.

| Rhif asesiad | Deiliannau Dysgu I'w bodloni | Math o asesiad | Hyd/Nifer Geiriau | Pwysoli (%) | Asesiad amgen, os yw'n berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3,4 | Written Assignment | 2000 gair | 50 | N/A |
| 2 | 1,2,3, | Portfolio | Cyfwerth â 2000 gair | 50 | N/A |

### Rhanddirymiadau

Rhaid llwyddo yn Nulliau Ymchwil 2 cyn y gall myfyrwyr symud ymlaen i astudio ar lefel 5.

### Strategaethau Dysgu ac Addysgu

Bydd amrywiaeth o wahanol strategaethau dysgu ac addysgu yn cael eu defnyddio yn y modiwl hwn, gan gynnwys darlithoedd, seminarau, gweithgareddau grŵp ac unigol, dysgu wedi'i gyfarwyddo a'i hunan-gyfarwyddo, a thiwtorialau. Cynhwysir cynnwys anghydamserol ar-lein sydd wedi'i recordio ymlaen llaw yn sail i'r sesiynau cydamserol fel rhan o'r modiwl. Bydd hyn yn caniatáu i fyfyrwyr gael amser i adfyfyrio ar eu gwybodaeth a'i datblygu ymhellach cyn atgyfnerthu'r dysgu drwy weithdai grŵp a/neu seminarau. Bydd y sesiynau gweithdai/seminar yn golygu tasgau ymarferol megis cymryd rhan mewn prosiect ymchwil grŵp, casglu a/neu ddadansoddi gwahanol fathau o ddata, a thrafodaethau/dadleuon ynghylch y gwahanol ddulliau o ddadansoddi data.

Mae'r holl ddulliau addysgu a dysgu yn cael eu cefnogi gan amgylchedd dysgu rhithiol Moodle y Brifysgol, lle bydd myfyrwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth eglur ac amserol er mwyn cefnogi gyda chyflwyno cynnwys megis fideos, dolenni at wybodaeth berthnasol ar-lein, fforymau trafod a darlithoedd sydd wedi'u recordio ymlaen llaw.

Mae Fframwaith Dysgu Gweithredol y Brifysgol (ALF) wedi ei mewnosod o fewn y modiwl er mwyn cyflawni'r hygyrchedd, cynhwysiant a hyblygrwydd gorau o safbwynt addysgu a dysgu. Mae hyn yn unol ag egwyddorion y Dyluniad Cyffredinol ar gyfer Dysgu (UDL). Defnyddir cyfuniad o ddysgu sy'n cyfuno dysgu cydamserol ac anghydamserol sydd wedi'u galluogi'n ddigidol gyda'r defnydd gorau o gyfleoedd ar-lein a lleoedd a chyfleusterau ar y campws.

### Elfennau Cymraeg

Gall myfyrwyr gyflwyno eu gwaith, cael mynediad at ffurflenni, adnoddau, gohebiaeth e-bost, cefnogaeth lleoliad a thiwtorialau personol yn Gymraeg.

### Amlinelliad o'r Maes Llafur Dangosol

- Trosolwg o'r hanfodion ar gyfer dyluniad meintiol ac ansoddol mewn perthynas ag ystyriaethau ar gyfer dadansoddi (gan gynnwys creu hypothesis a chwestiynau

ymchwil)

- Cyflwyniad i ddulliau dadansoddi meintiol ac ystadegau, gan gynnwys ystadegau disgrifiadol, profi hypothesis, amcangyfrif cyfwng a chyfyngau hyder, a phrofi arwyddocâd, ymwybyddiaeth o wahanol fathau o ystadegau casgliadol
- Cyflwyniad i ddulliau dadansoddi ansoddol, gan gynnwys gwahanol agweddau ar ddadansoddi, dadansoddi thematig a dadansoddi cynnwys
- Dibynadwyedd a dilysrwydd dadansoddi meintiol, gwirio ansawdd mewn ymchwil ansoddol a hyblygrwydd. Cryfderau a chyfyngiadau'r gwahanol ddulliau o ddadansoddi
- Sgiliau ymchwilio ymarferol (megis rheoli data mewn ymchwil ansoddol a meintiol, archwilio dulliau arbrofol ac arolygu o gasglu/dadansoddi data yn ymarferol, cynhyrchu amserlenni cyfweld, trawsgrifio data ansoddol, sgiliau gwrando gweithredol a sgiliau cyfweld)
- Trosolwg o sut i ysgrifennu adroddiadau ymchwil (gwahaniaethau rhwng astudiaethau ansoddol a meintiol)
- Ystyriaethau moesegol ac ymarferol wrth gynnal ymchwil (gan gynnwys Cod Moeseg ac Ymddygiad BPS, Cod Moeseg Ymchwil Dynol BPS, ystyriaethau ar gyfer ymchwil sy'n gyfrifol yn gymdeithasol megis gwyddoniaeth agored a rhag-gofrestru).

## Llyfryddiaeth Ddangosol

Nodwch fod y gwaith darllen hanfodol a gwaith darllen dangosol arall yn amodol ar adolygiad a diweddariad blynyddol.

**Gwaith Darllen Hanfodol:**

Bourne, V. (2017). *Starting out in methods and statistics for psychology: A hands-on guide to doing research.* Oxford University Press.

Braun, V. & Clarke, V. (2013). *Successful qualitative research: A practical guide for beginners.* SAGE.

British Psychological Society Code of Ethics and Conduct. (2021). *Code of Ethics and Conduct* | BPS

British Psychological Society Code of Human Research Ethics. (2021). *BPS Code of Human Research Ethics* | BPS

Clark-Carter, D. (2024). *Quantitative psychological research: The complete student's companion (5th ed.).* Psychology Press.

Willig, C. (2022). *Introducing qualitative research in psychology (4th ed.).* Open University Press.

**Gwaith Darllen dangosol arall:**

Banyard, P., Dillon, G., Norman, C., & Winder, B. (Eds.). (2024). *Essential psychology (4th ed.).* SAGE.

Braun, V., & Clarke, V. (2022). *Thematic analysis: a practical guide*. SAGE

Horst, J.S., (2015). *The psychology research companion: From student project to working life*. Routledge.

Sullivan, C., & Forrester, M. A. (Eds.). (2018). *Doing qualitative research in psychology: A practical guide (2nd ed.)*. SAGE.

**Gellir canfod rhai adnoddau Cymraeg yn www.porth.ac.uk, sef porth adnoddau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.**

## Administrative Information

| **For office use only** | |
|---|---|
| Initial approval date | 28 August 2025 |
| With effect from date | September 2025 |
| Date and details of revision | 15.09.2025 - Amended module specification: updated a Learning Outcome; revised indicative assessment type and written assignment word count; refreshed the Indicative Syllabus Outline and Indicative Bibliography.<br>03/03/26 - Revalidated |
| Version number | 3 |